

Gweithredu Gwyrdd

Cylchgrawn Cyfeillion y Ddaear Cymru

2008



**Cyfeillion
y Ddaear
Cymru**

**Friends of
the Earth
Cymru**

**GWALLGOFRWYDD Y DRAFFORDD
Achub Lefelau Gwent**



Y llwybr at dri y chant | Beth i wneud â gwastraff | Ymunwch â grŵp lleol Cyfeillion y Ddaear

Gweithredu, sy'n wyrdd



Croeso. I rifyn cyntaf cylchgrawn newydd sbon Cyfeillion y Ddaear Cymru.

"Gweithredu Gwyrdd". Chredwch chi fyth, ond fe gymrodd oes i ni feddwl am yr enw hwnnw. A, na, ni fu i ni dalu miloedd o bunnoedd i ddewin marchnata wneud y gwaith drosom ni.

Mae'n syml, mae'n uniongyrchol. Mae'n gylchgrawn am faterion gwyrdd, ac mae'n ymwneud â gweithredu. Nid gweithredu trwy newid bylbiau golau a diffodd y botwm 'parod' yn unig (rydych yn gwneud hynny'n barod, yn amlwg). Dyma weithredu gwleidyddol. Nid oes raid gorymdeithio trwy'r strydoedd, sefyll etholiad nac ymuno â phlaid wleidyddol er mwyn gweithredu. Ond, mae yn golygu cymryd rhan yn y dadleuon pwysig, dweud wrth ein harweinwyr ein bod

yn becsu, a bod arnom eisiau iddynt wneud y penderfyniadau cywir ar ein rhan - ar ran Cymru, y byd, a'i phobl, a'r amgylchedd.

Mae'r rhifyn gyntaf hon yn ymwneud â'r gagendor sy'n bodoli rhwng siarad gwyrdd a gweithredu gwyrdd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn dweud pethau mawr - gan addo lleihau allyriad nwyon tŷ gwydr o 3% yn flynyddol, ac maent yn gyson yn fwy gwyrdd na'u cymheiriaid yn San Steffan. Er hyn, maent yn dal i ystyried gosod traffordd garbonllyd trwy gynefin pwysig, ac wedi rhoi caniatâd i gloddio glo brig 35 metr o gartrefi pobl. Ewch i dudalen 6 er mwyn gweld beth sydd wir angen iddynt wneud i lwyddo gyda'r gostyngiad yna o 3%.

Mae gwrthwynebwyr ynni gwynt yn gwneud tipyn o glebran hefyd. Ac

mae fel pe baent yn benderfynol o'n camarwain a'n cam-hysbysu ynglŷn â'r dechnoleg fyddai'n rhoi'r cyfle gorau i ni gynhyrchu'r ynni glân a gwyrdd angenrheidiol. Felly, darllenwch ein chwedladdwr ar dudalen 12, a chewch benderfynu drosoch eich hunain.

Peidiwch chwaith a gadael i unrhyw un eich darbwylo fod llosgwyr gwastraff yn amgylcheddol gyfeillgar - ewch i 'Beth i wneud ynghylch gwastraff?' ar dudalen 5 i gael gwybod pam.

Trwy gydol y cylchgrawn sonnir am weithredoedd y gallwch eu cyflawni. Ysgrifennwch e-bost, ymunwch a grŵp lleol neu gychwyn un eich hun. Neu gallwch ddod yn fwy gwybod. Weithiau, mae hynny'n ddigon.

Simon Williams, Golygydd



cynnwys

3 Ynni llanw'r Hafren

Nid morglawdd yw'r unig ddewis

3 Bygywth democratiaeth Cymru

Mesur cynllunio newydd San Steffan

4 Cymru yn erbyn GM

Cwmnïau yn atebol i lygriad GM yng Nghymru

4 Archwiliad olew a nwy

Bae Ceredigion dan fygythiad

4 Ymgyrch Biodanwydd

Dywedwch wrth eich ASE i wrthod targedau biodanwydd niweidiol

5 Beth i wneud â gwastraff

Pam nad llosgi gwastraff yw'r ateb

6 Y llwybr at dri y chant

All Llywodraeth y Cynulliad gyflawni'r toriadau mewn allyriadau carbon rydym wirioneddol eu hangen?

8 Gweithredu'n lleol

Cymerwch ran yng ngwaith eich grŵp Cyfeillion y Ddaear lleol

10 Gwallgofrwydd y draffordd

Traffordd cynhyrchu traffig arfaethedig drwy gynefin o bwysigrwydd cenedlaethol

12 Mythau'r gwynt

Y gwir am ein technoleg adnewyddadwy fwyaf blaengar

6 . cyflawni toriadau CO₂ yng Nghymru



Ian Homer



Hiro Mori

10 . gwiriondeb y draffordd

12 . mythau'r gwynt



Ian Homer

Nid dim ond morglawdd gall gasglu ynni tonnau'r Hafren

Mae astudiaeth dwy flynedd gwerth £9 miliwn gan Lywodraeth y DG yn ceisio'r ffordd orau o gasglu ynni tonnau yn aber yr afon Hafren - ac mae'n bosib nad morglawdd mo hynny.

Roedd adroddiad Comisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC) Llywodraeth y DG ym mis Hydref '07, yn amlwg yn ffafrio morglawdd a fyddai'n ymestyn o Gaerdydd i Weston. Mater dadleuol oedd y ffaith iddynt wrthod nifer o syniadau a thechnolegau eraill.

Mae'r adroddiad newydd yn fwy eangfrydig, diolch i'r drefn. Bydd yn cymharu â chyferbynnu nifer o dechnolegau ynni tonnau, gan gynnwys y morlynnoedd tonnau eang a argymhellwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru yn Adroddiad Morglawdd yr Afon Hafren.

Pery Cyfeillion y Ddaear Cymru i wrthwynebu morglawdd Caerdydd-Weston. Mae technolegau amgen yn bodoli a fyddai'n rhatach o lawer, yn llai niweidiol i'r amgylchedd ac sy'n creu'r un faint o egni o'r ffynonellau adnewyddol y mae ei angen arnom yn ddirfawr.

Bydd cam cyntaf astudiaeth y Llywodraeth, a lansiwyd fis Ionawr '08, yn penderfynu a oes unrhyw un o'r prosiectau yn addas ar gyfer ystyriaeth fanylach y flwyddyn nesaf. Yn arwyddocaol, gall y prosiect gynnwys un cynllun unigol, megis morglawdd Caerdydd-Weston, neu gyfuniad o sawl cynllun e.e. y morlynnoedd tonnog a morglawdd Shoots neu ffens llanw nepell o'r ail bont Hafren, fyddai'n cludo'r brif reilffordd o Lundain i dde Cymru.

Gofynnwyd i grwpiau amgylcheddol gyflwyno prosiectau ynni heb donnau o 'bris cyfatebol' fyddai'n llwyddo i leihau allyriant CO₂ o'r un gyfradd neu fwy. Mae hyn er mwyn diwallu anghenion Cyfarwydeb Cynefinoedd yr UE, sy'n datgan pe byddai i gynefinoedd gwarchoddedig Aber yr afon Hafren gael

eu difrodi, byddai'n rhaid bod 'yr angen yn ddirfawr' ac na fyddai modd arall o weithredu.

Am ragor o wybodaeth am opsiynau ynni tonnau'r Hafren, ac i lawrlwytho fersiwn Cyfeillion y Ddaear Cymru o Adroddiad Morglawdd yr Afon Hafren, ewch i www.cyddcymru.co.uk

Mesur cynllunio yn fygythiad i ddemocratiaeth yng Nghymru

Bwriedir codi gorsaf ynni niwclear ddwy filltir o'ch cartref. Fe'i gwrthwynebir gan drigolion lleol, cynghorau, ACau, ASau a Llywodraeth y Cynulliad.

Gyda'r Mesur Cynllunio newydd, fydd wedi ei basio gan Senedd y DU erbyn hydref 2008 yn ôl pob tebyg, bydd hawl eu hanwybyddu hwynt oll. Ni fydd cyfle teg i gyflwyno achos drosoch eich hun mewn ymchwiliad cyhoeddus hyd yn oed.

Yn awr, caiff bron bob penderfyniad cynllunio yng Nghymru ei drosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ni fydd y Mesur yn eu heffeithio. Eithriadau i hyn, fodd bynnag, yw gorsafydd ynni dros 50MW (h.y. nid rhai mawr iawn o gwbl), ac isadeileddau ynni eraill, sydd dan reolaeth San Steffan o hyd.

Yn ôl y Mesur byddai datganiadau polisi 'cenedlaethol' yn cael eu drafftio gan Lywodraeth y DG. Caiff y rhain wedyn eu dehongli gan Gomisiwn penodedig, a bydd eu penderfyniad hwy'n derfynol ac yn atebol i neb.

Pan drafodwyd y Mesur yn y Pwyllgor Cynladwyedd aeth Cyfeillion y Ddaear Cymru ati i lobio Aelodau'r Cynulliad. Roedd eu hargymhellion dilynol yn cefnogi ein safiad ni i'r carn, sef, y dylai POB penderfyniad cynllunio yng Nghymru gael ei wneud yng Nghymru - yn awr, rhaid sicrhau fod San Steffan yn gwrando.

Pe caiff ei basio ar ei ffurf bresennol, byddai'r Mesur yn ei gwneud yn llawer haws adeiladu gorsafydd niwclear, glofeydd brig, neu bibelli nwy yng Nghymru, waeth beth fo dymuniadau pobl Cymru.

Cysylltwch â'ch AS i ddatgan eich gwrthwynebiad i'r dirywiad hwn yn ein democratiaeth. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.planningdisaster.co.uk

RHIFYN 1

Haf 2008

Cyhoeddir **GweithreduGwyrdd** gan **Cyfeillion y Ddaear Cymru**
33 Oriol Arcêd y Castell
Caerdydd CF10 1BY
ffôn: 029 2022 9577
ffacs: 029 2022 8775
e-bost: cymru@foe.co.uk
gwefan: www.cyddcymru.co.uk






Golygydd a chynllunydd:
Simon Williams
[simon.williams@foe.co.uk]

Cyfranwyr:
Neil Crumpton, Haf Elgar, Gordon James, Bleddyn Lake, Sue Price, Rod Walters

Clawr: **Delwedd © Ian Homer**

Rhif Cwmni Cyfeillion y Ddaear
Cyfyngedig 1012357

Cyfeillion y Ddaear:

-  yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru
-  yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwado y DG
-  yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenendlaethol ar draws pum cyfandir
-  yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru
-  yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm



Argraffwyd ar bapur a wnaed 100 y cant o wastraff ôl-ddefnyddiwr, gan ddefnyddio inciau llysiâu ac yn gwbl rydd o alcohol, gan argraffwr a chanddo achrediad amgylcheddol rhyngwladol ISO 14001

Cwmnïau Biotechnoleg yng Nghymru yn atebol i lygriad GM

Yn y dyfodol, bydd cwmnïau biotechnoleg yn atebol am unrhyw lygriad gan eu cynydau a addaswyd yn enetig (GM) sydd wedi eu plannu yng Nghymru.

Dyma'r cynnig cadarn a gyflwynwyd yn rheoliad drafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar atebolwydd amgylcheddol, sydd wedi bod trwy ymgynghoriad cyhoeddus. Daw'r rheoliad terfynol i rym tua diwedd 2008.

Mae'r rheolau cyfatebol yn Lloegr, a osodwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Cefn Gwlad (DEFRA), lawer gwannach ac ni fydd y cwmnïau biotechnoleg yn gyfrifol am unrhyw lygriad sy'n digwydd o ganlyniad i hyn.

Mae'r cynnigion gan Lywodraeth y Cynulliad yn arwydd clir nad oes croeso i gnydau GM yng Nghymru, a chyda chefnogaeth yr holl bleidiau, maent yn fodlon dal eu tir yn erbyn DEFRA a'r cwmnïau biotechnoleg er mwyn cadw Cymru'n ddi-GM.

Yn 2000 pleidleisiodd y Cynulliad Cenedlaethol yn unfrydol yn erbyn tyfu cynydau GM yng Nghymru ac, heblaw am dreialon maes yn Sir Benfro a Sir y Fflint yn 2000 a 2001, mae Cymru wedi bod yn ddi-GM ers 2001.

Cyfeillion y Ddaear Cymru, Sefydliad y Merched Cymru, Undeb Amaethwyr Cymru a GM Free Cymru sy'n ffurfio Cynghrair Cymru di-GM, ac maent dal i frwydro er mwyn sicrhau fod Cymru'n parhau i fod yn ddi-GM.



Adrian Shepherd, Sea Trust

Mam a llo morfil pigfain yn y môr oddi ar orllewin Cymru

Bywyd Môr dan fygythiad ym Mae Ceredigion

Mae rhan helaeth o Fae Ceredigion yn Ardal Gadwraeth Arbennig oherwydd ei bwysigrwydd i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Mae'r dyfroedd a gynhesir gan Lif y Gwlff yn gartref y dolffin trwynbwl, y llamhidydd, y morlo llwyd a'r morfil, yn ogystal â nifer fawr o adar môr.

Ond, unwaith eto, mae'r hafan hon i fywyd gwyllt dan fygythiad gan gyrchfeydd am olew a nwy. Yn ystod y 90au a'r llynedd unwaith eto, llwyddodd grwpiau amgylcheddol

i atal y ceisiadau hyn i ddrilio yn y dyfroedd sydd wedi'u diogelu. Yn awr, mae'n bosib y bydd rhaid gwneud y cyfan unwaith eto, gan fod Bae Ceredigion ar restr y Llywodraeth o ardaloedd lle caiff cwmnïau geisio am drwyddedau archwilio.

Ysgrifennwch at Malcolm Wicks, Gweinidog Ynni, DTI, 1 Heol Victoria, Llundain, SW1 0ET neu e-bostiwch: mpst.wicks@dti.gsi.gov.uk, i'w annog i gadw datblygiadau olew a nwy i ffwrdd o Fae Ceredigion.

Mae barn gyhoeddus yn erbyn organebau GM (GMOs) yn gryf a chadarn yn Ewrop, wrth i fwyfwy ardaloedd ymuno â rhwydwaith Ardaloedd Ewropeaidd ddi-GM.

Tra bo Llywodraeth San Steffan yn dal i esgus bod y DG o blaid GM, mae'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban yn gadarn eu gwrthwynebiad i gnydau GM yn eu gwledydd hwy.

Yng nghyfarfodydd yr Undeb Ewropeaidd, DEFRA sydd ar y funud yn bwrw pleidlais y DG dros awdurdodi tyfu GMs yn Ewrop. Mae hawl ganddynt i bleidleisio o'u plaid hyd yn oed os oes gwrthwynebiad chwyrn gan yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon i unrhyw gynig.


Am ragor o wybodaeth, ewch i www.gmfrecymru.org

Biodanwydd yn 'rhan o'r problem'

Mae Senedd Ewrop yn cynnig y dylai 10% o danwydd trafniadaeth ffyrdd fod yn fiodanwydd niweidiol erbyn 2020.

Yn ôl tystiolaeth gynyddol bydd cynhyrchu biodanwydd (a elwir hefyd agrodanwydd) yn dinistrio'r fforestydd sy'n rai o gynefinoedd pwysicaf y byd, yn dwyn bwyd a thir y bobl fwyaf tlawd a chynyddu newid yn yr hinsawdd.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru'n ymgyrchu yn erbyn cynnig yr Undeb Ewropeaidd i osod nod o 10%, gan obeithio darbwyllo Aelodau Seneddol Ewropeaidd (ASE) i'w wrthwynebu mewn pleidlais yr hydref hwn.



Danfongwch gerdyn post yn gofyn i'ch ASE bleidleisio yn erbyn targedau biodanwydd

Beth i'w wneud ynghylch gwastraff?

Beth ddylem ei wneud â'n mynyddoedd o sbwriel? Yn sicr dim ei losgi, yn ôl **Rod Walters** o Grŵp Gwastraff Cyfeillion y Ddaear De Ddwyrain Cymru

Lledled Cymru mae awdurdodau lleol yn prysuro i ddatblygu rhaglenni i ymdrin â gwastraff. Mae'r Gyfarwydddeb Tirlenwi Ewropeaidd yn eu gorfodi i leihau faint o wastraff biobydradwy a anfonir i'w dirlenwi - a bydd dirwyon trwm yn cael eu gosod os na fyddant yn bodloni y targedau. Mae'r holl arwyddion yn dangos y gallai llawer o Awdurdodau Lleol gael eu temtio i fynd yn llwyr am y 'dewis hawdd' o losgi.

Mae llosgyddion yn cael eu marchnata yn atyniadol fel 'ynni o wastraff' - term camarweiniol sy'n awgrymu y gallai llosgi fod y ffordd orau (neu hyd yn oed yr unig ffordd) o adfer ynni o wastraff. Er bod technolegau trin eraill yn adfer ynni o wastraff yn fwy effeithiol na llosgi, daw'r arbedion ynni mwyaf oll o lefelau uchel o ailgylchu.

Ac mae'n bosibl nad llosgyddion yw'r 'dewis cyflym a hawdd'. Gallent wynebu

gwrthwynebiad lleol cryf a chymryd llawer rhagor o amser i'w codi na chyfleusterau gwastraff llai a mwy hyblyg.

Felly beth yw'r atebion? Y brif strategaeth sydd ei hangen yw lleihau symiau gwastraff gweddilliol i'r isaf posibl drwy osgoi creu gwastraff, ailddedfnyddio ac ailgylchu. Bydd lleihau gwastraff gweddilliol yn sylweddol yn dileu'r angen am dechnolegau mawr ac anhyblyg megis llosgyddion. Ond sut mae gwastraff gweddilliol i gael ei drin?

Mae'n rhaid i atebion ddilyn dwy egwyddor arweiniol: yr effaith ar newid hinsawdd fel yr ystyriaeth gyntaf, ac yn ail hyblygrwydd - mae'n rhaid i gyfleusterau allu addasu i newidiadau mewn swm gwastraff wrth i gyfraddau ailgylchu gynyddu.

Mae Triniaeth Mecanyddol a Biolegol (MBT) yn gasgliad o dechnolegau modwlar a allai fod yn un ateb. Gyda MBT, unwaith y bydd y deunydd defnyddadwy i gyd wedi'i echdynnu gall y gweddill gael ei gompostio neu ei roi fel deunydd anadweithiol mewn safleoedd tirlenwi. Mae technolegau eraill yn dod i'r amlwg yn cynnwys gwres, nwyeddio a pyrolysis - pob un ohonynt eisoes yn cael ei brofi ar draws y Deyrnas Unedig.

Gallai pob un o'r technolegau hyn fod yn ddewis gwell na llosgi. Yn bedant nid llosgi yw'r ateb.

Cydlunir Grŵp Gwastraff De Ddwyrain Cymru gan Janet Rawlings o Gyfeillion y Ddaear Cas-gwent
[\[janet@alg.myzen.co.uk\]](mailto:janet@alg.myzen.co.uk)

Mae llosgi yn ddrwg i newid hinsawdd

Mae llosgi yn un o'r triniaethau gwastraff sy'n perfformio waethaf o ran creu nwyon tŷ gwydr. Mae'n rhyddhau swm enfawr o CO₂ i gynhyrchu dim ond swm bach o ynni.

Mae llosgyddion yn allyrru cemegau gwenwynig

Mae llosgi yn arwain at allyriadau uwch o nitrogen ocsid, gronynnau, arsenig, deuocsidau chlorid hydrogen a ffwrn nag unrhyw driniaeth gwastraff gweddilliol arall.

Mae economeg llosgyddion yn ffafrio gweithfeydd mawr

Mae llosgyddion yn gostus i'w codi. Gan fod cost gostyngiad mewn llygredd yn tueddu i fod yr un waeth beth yw'r maint, caiff gweithfeydd mawr eu ffafrio o gymharu â'r rhai bach. Maent yn gwasanaethu ardaloedd eang, yn groes i'r 'egwyddor agosrwydd' sydd wedi hir sefydlu a'n pwysleisio y dylid delio â gwastraff yn agos i'r man y caiff ei gynhyrchu.

Mae llosgyddion yn creu galw am fwy o wastraff

Oherwydd cost cyfalaf uchel llosgyddion, mae'r gweithredwyr angen contractau gydag awdurdodau lleol am isafswm gwarantiedig o symiau gwastraff dros gyfnod nodweddiadol o 25-30 mlynedd. Dengys ymchwil bod cyfraddau ailgylchu yn gwaethgu - dengys data o Ddenmarc yn glir bod ardaloedd sydd â chyfraddau uchel o losgi yn ailgylchu llai.

Prosiect Gwyrdd a Grŵp Gwastraff Cyfeillion y Ddaear De Ddwyrain Cymru

Mae pump o grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cydweithio i ymladd grŵp o bump awdurdod lleol sydd wedi dod ynghyd i gynnig codi llosgydd anferth ym Mae Caerdydd.

Gallai'r llosgydd losgi 500,000 tonnall fetrig o wastraff bob blwyddyn, dros gyfnod contract tebygol o 25 mlynedd.

Mae'r awdurdodau lleol - Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Sir Fynwy a Bro Morgannwg - wedi rhoi'r enw "Prosiect Gwyrdd" i gynnig y llosgydd.

Yng Nghymru, mae gennym bedwar ASE, sy'n cynrychioli'r wlad i gyd. Bydd Cyfeillion y Ddaear Cymru'n eu llobio trwy weithredoedd grwpiau lleol ac ymgyrch cardiau post. Cysylltwch â'ch grŵp lleol er mwyn helpu (gweler tudalen 9), neu dewch draw i'n stondin yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol yr haf hwn i anfon cerdyn post.

O'n pedwar ASE - Glenys Kinnock, Jill Evans, Jonathan Evans ac Eluned


Morgan - mae Jill Evans eisoes wedi galw ar i'r nod 10% hwn gael ei ddileu. Yn siarad wedi pleidlais yn Senedd Ewrop ym mis Ebrill '08, dywedodd:

"Nid yw agrodanwydd yn datrys yr her rydym yn wynebu heddiw ynglŷn â'n defnydd o egni adnewyddol. Mae pryder ar led ynglŷn â'r effaith niweidiol ar brisiau bwyd, ar gyflenwad bwyd a byddai'n annoeth iawn i'r Comisiwn Ewropeaidd ddal ati i ganlyn y polisi hwn gyda chymaint o frwdfrydedd.

"Mae angen i ni leihau'r galw am ynni a buddsoddi llawer mwy mewn ffynonellau gwirioneddol gynaliadwy. Mae agrodanwydd yn rhan o'r broblem, nid yw'n rhan o'r ateb."

Am ragor o wybodaeth, ac i e-bostio'ch ASE, ewch i:
www.foe.co.uk/campaigns/biodiversity/press_for_change/stop_targets

Y llwybr
30/10



Jane Davidson, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, yn siarad yng Nghynhadledd Cyfeillion y Ddaear Cymru

Ian Homer

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i gyflawni toriadau o 3% y flwyddyn yn allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Mae cyfarwyddwr Cyfeillion y Ddaear Cymru, **Gordon James**, yn bwrw golwg ar sut y gellir cyflawni hyn

Dylem fod yn falch mai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ym mis Mehefin y llynedd, oedd llywodraeth gyntaf yn y byd i fabwysiadu galwad sylfaenol ymgyrch newid hinsawdd Cyfeillion y Ddaear. O 2011 bydd yn anelu i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru gan 3% y flwyddyn. Ond mae cael nod a chyflawni'r nod yn ddau beth hollol wahanol - a oes gan Lywodraeth y Cynulliad yr ewyllys mewn gwirionedd i wneud i hyn ddigwydd? A yw'r grym ganddi ac a yw mewn gwirionedd yn gwybod sut?

Mae'r dystiolaeth wyddonol ynglŷn â newid hinsawdd yn dod yn fwy brawychus bob dydd. Mae Iâ yr Arctig yn toddi mor gyflym nawr fel ei bod yn ymddangos yn debygol y bydd ganddynt hafau di-iâ ddegawdau ynghynt na'r disgwyl. Ym mhegwn arall y blaned mae gwyddonwyr Arolwg Antarcig Prydain wedi adrodd ar gynnydd brawychus yng nghyflymder symudiad rhewlifau anferthol tua'r môr.

Tystiolaeth fel hyn sydd wedi arwain un o brif arbenigwyr hinsawdd y byd, James Hansen o NASA, i ddweud y gall lefel y môr godi bum metr cyn diwedd y ganrif. Cred fod gennym ond deng mlynedd i gyflwyno'r camau llym sydd eu hangen i atal allyriadau carbon deuocsid (CO₂) yn ddigon cyflym er mwyn osgoi cynnydd peryglus mewn tymheredd drwy'r byd i gyd. Gwyddom fod y rhan fwyaf o'r mesurau i gyflawni'r gostyngiadau hyn mewn allyriadau

yn bodoli'n barod. Mae astudiaeth gan Ganolfan Ymchwil Tyndall i Newid yn yr Hinsawdd ym Mhrifysgol Manceinion, a gomisiynwyd ar y cyd gan Gyfeillion y Ddaear a'r Banc Cydweithredol, wedi dangos y gallai allyriadau CO₂ yng Nghymru gael eu lleihau gan 70% erbyn 2030. Gallem wneud hyn yn bennaf drwy ddefnyddio technolegau megis gwell effeithlonrwydd tanwydd, gwell cadwraeth ynni ac ynni adnewyddadwy. Ym mis Medi 2007 lansiodd Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad i archwilio sut y gellid cyflawni toriadau mewn allyriadau yng Nghymru. Mae adroddiadau cyntaf y Pwyllgor, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008, yn ymdrin â'r sectorau preswyl a thrafnidiaeth a daw'r ddau i'r casgliad y gallai llawer iawn mwy gael ei gyflawni o fewn pwerau presennol y Cynulliad.

Er enghraifft, gallai polisi cynllunio sicrhau bod datblygiadau adeiladu newydd yn cynhyrchu o leiaf 10% o'u hynni o systemau ynni adnewyddadwy ar-safle. O ran trafndiaeth, mae'r pwyllgor yn annog Llywodraeth y Cynulliad i gynyddu'r ariannu ar gyfer trafndiaeth gynaliadwy o 50% o'r gyllideb trafndiaeth i 70%, fel yn yr Alban.

Mae mentrau eraill yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i ddod yn arweinydd mewn taelo allyriadau nwyon tŷ gwydr. Ei nod yw sicrhau bod pob

adeilad newydd yn cael ei adeiladu i safonau ddi-garbon o 2011 ymlaen, pum mlynedd cyn Lloegr. Ac, wedi gwrthsefyll dadleuon anwybodus gwrthwynebwyr ynni gwynt, noda Trywydd Ynni Llywodraeth y Cynulliad y nod i weld yr holl drydan yr ydym yn ei ddefnyddio yn cael ei greu o ffynonellau adnewyddadwy o fewn 20 mlynedd.

Hyd yn oed wrth i ni frwydro i weld allyriadau o awyrennau a llongau yn cael eu cynnwys yn y Mesur Newid Hinsawdd yn San Steffan, mae Gweinidog Amgylchedd effeithiol Cymru, Jane Davidson, eisoes wedi datgan ei bod am weld y rhain wedi eu cynnwys yng Nghymru.

Ond nid yw'r newyddion i gyd yn dda. Mae methiant Llywodraeth y Cynulliad i wrthod caniatâd i bwl glo brig Ffos-y-Fran gloddio dim ond 35 metr o gartrefi pobl ger Merthyr Tudful, a'r estyniad arfaethedig i'r M4 ar draws Lefelau Gwent, wedi codi amheuan ynglŷn â'r ymrwymiad datganiedig i roi newid hinsawdd ar frig ei hagenda. A oes yna mewn gwirionedd y cryfder o ran gweledigaeth ac arweiniad sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn ar bob lefel?

Datganoli grym

Hyd yn oed gyda'r ewyllys gorau oll, mae'n annhebygol y bydd y cynigion clodwiw sy'n dod o Fae Caerdydd yn ddigon i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr cyffredinol Cymru. Gall polisiâu Llywodraeth y Cynulliad, a'i hymrwymiad i 3% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, ddim ond digwydd mewn meysydd sydd wedi eu datganoli - y meysydd hynny y mae gan Lywodraeth y Cynulliad reolaeth drostynt, megis y sectorau cyhoeddus, preswyl a thrafnidiaeth.

Mae'r rhan fwyaf o'r pwerau sy'n ymwneud â'r sector ynni, sef allyrrwr mwyaf nwyon tŷ gwydr, yn parhau yn Llundain. Golyga hyn nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad fawr o ddylanwad ar benderfyniadau yn ymwneud â gorsafoedd pŵer, sydd eu hunain yn gyfrifol am draean o allyriadau CO2 Cymru. Ers 1990 mae allyriadau o'r ffynhonnell hon yng Nghymru wedi cynyddu gan chwarter ac maent yn debygol o chwyddo eto yn y dyfodol.

O'i ddyddiau cynnar mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cael gweledigaeth o fod yn arweinydd byd-eang mewn ynni glân. Er ei ddiffyg pwerau ar faterion ynni, mae wedi ceisio datblygu hyn drwy ddefnyddio'r system gynllunio, fel yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 ar ynni adnewyddadwy, a thrwy roi rhagor o arian i'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref.

Ond nid yw'r penderfyniadau a wnaed dros Gymru yn San Steffan wedi bod mor wyrdd. Mae gorsaf bŵer Aberddawan wedi cael caniatâd i gynyddu cynnyrch, er mai hi yw'r ffynhonnell fwyaf o lygredd yn y wlad. Golyga hyn y bydd allyriadau CO₂ yn cynyddu o saith miliwn tunnell fetrig y flwyddyn i tua un ar ddeg tunnell fetrig. Caiff Aberddawan ei gyrru yn rhannol gan lo a gloddio ym mhwl Ffos-y-Fran - mae'n debyg mai pwysau gan San Steffan a wthiodd Llywodraeth y Cynulliad i roi'r caniatâd gwarthus i hwn.

Ym Mhenfro mae cais wedi ei gyflwyno ar gyfer gorsaf bŵer wedi ei thanio gan nwy naturiol hylifedig (LNG) a fyddai'n allyrru bron i chwe thunnell fetrig o CO2 y flwyddyn. Rydym wedi cyfrifo y byddai'r ynni gwres a wastraffir o'r orsaf bŵer hon yn cyfateb i bron i hanner y galw am drydan yng Nghymru. Er hyn mae ein cynnig i ddefnyddio'r gwastraff gwres mewn pedwar lleoliad diwydiannol ar lannau Aberdaugleddau mewn systemau gwres a phŵer cyfunedig (CHIP) hyd yma wedi eu hanwybyddu.

Ynghyd â gorsafoedd pŵer eraill sydd wedi eu cymeradwyo neu eu cynnig, gallai allyriadau CO2 o gynhyrchu trydan gynyddu gan dros 20 miliwn tunnell fetrig. Os cânt y caniatâd i barhau byddai allyriadau CO2 blynyddol o Gymru yn cyrraedd 64 miliwn tunnell fetrig, gan wneud gostyngiad o 3% y flwyddyn mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ddim mwy na breuddwyd gwrrach.

Dylem fod yn falch o fwriadau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'n allyriadau nwyon tŷ gwydr cynyddol. Gyda'r weledigaeth a'r arweiniad cywir gallai Cymru fod yr un mor bwysig yn y chwyldro economaidd gwyrdd byd-eang ag yr ydoedd pan oeddem yn cynhyrchu'r glo a oedd yn sail i'r chwyldro diwydiannol. Ond nid yw nodau a rhethreg yn ddigon. Mae angen i ni gael ymrwymiad i weithredu ar bob lefel o lywodraeth - awdurdod lleol, Cymru a'r DU. Mae angen i bob penderfyniad a wneir gael ei weld drwy wydrau newid hinsawdd. Rydym yn creu byd lle y gwrthodir ddyfodol i'n plant. Os ydym am osgoi'r sefyllfa hunllefus hon mae'n rhaid i bawb ohonom gymryd cyfrifoldeb drwy wneud popeth y gallwn i leihau ein ôl-troed carbon. Rhaid i ni hefyd wneud i'n gwleidyddion ddeall difrifoldeb yr argyfwng yr ydym yn ei wynebu, a'r angen am newid radical a fyddai uwchlaw gwleidyddiaeth bleidiol. Mae'r rhan fwyaf o'r atebion yn bodoli'n barod. Yr hyn sydd ar goll yn awr yw'r ewyllys wleidyddol. Ni allai mwy fod yn y fantol. Rhaid i ni weithredu nawr.

Dŵr gwyrdd clir rhwng Caerdydd a San Steffan

A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain y DU tuag at ddyfodol gwyrddach?

Ynni adnewyddadwy Chwefror '08

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig y dylai 100% o ddefnydd trydan Cymru gael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025. Nod San Steffan yw cael 50% erbyn 2020

Ailgylchu Rhagfyr '07

Nod Cymru yw ailgylchu 70% o wastraff erbyn 2025. Targed Lloegr yw 50% erbyn 2020

Torri allyriadau Mehefin '07

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw'r llywodraeth gyntaf yn y byd i ymrwymo i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr gan 3% y flwyddyn

Newid hinsawdd Chwefror '07

Pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad yn unfrydol mai newid hinsawdd ddylai fod yn flaenoriaeth gyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Adeiladau cynaliadwy Chwefror '07

Dywed Llywodraeth y Cynulliad y dylai pob adeilad newydd yng Nghymru gael ei adeiladu i safonau ddi-garbon o 2011 ymlaen - pum mlynedd cyn Lloegr

Gweithredu'n Lleol

Nid sefydliad anhysbys sy'n bodoli ac yn gweithredu'n rhywle arall mo Cyfeillion y Ddaear. Ledled Cymru, mae yna bobl sy'n gwneud eu byd yn wyrddach lle. Ble bynnag yr ydych yn byw, gallwch chi gymryd rhan

Cychwyn Grŵp



O edrych ar y map gwelir fod grwpiau Cyfeillion y Ddaear yn ymgynnull yn lleol hyd a lled y wlad. Os nad oes un yn eich ardal, beth am efelychu Sue Price, a chychwyn eich grŵp eich hun

“ Chwe mis yn ôl cefais sylweddoliad - roeddwn eisiau bod yn fwy amgylcheddol 'wyrdd', a gwneud rhywbeth fyddai'n annog pobl lleol eraill i wneud newidiadau bychain, ymarferol. Ond sut?

Y cam cyntaf oedd cysylltu â Chyfeillion y Ddaear Cymru, a'm gobaith oedd ymuno â grŵp lleol oedd wedi'i sefydlu eisoes. Bu'n syndod i mi nad oedd un, ond cynigiodd Bleddyn Lake, Swyddog Datblygu Grwpiau Lleol, gwrdd â mi. Llanwyd fi â brwdfrydedd i sefydlu fy ngrŵp fy hun.

Euthum â phosteri o gwmpas, llogais ystafell ac roeddwn yn barod i newid y byd - Rhaeadr o leiaf. Daeth nifer o bobl i'r cyfarfod, a dyna sefydlu ein grŵp. Roedd llawer o waith i'w wneud - rhwng penderfynnu ar enw'r grŵp (sef

'Calon Cymru', sy'n cynnwys Rhaeadr, Llandrindod a Llanfair ym Muallt), ethol swyddogion ac agor cyfrif banc - ond cafwyd cefnogaeth heb ei ail gan Gyfeillion y Ddaear Cymru.

Yna, bu'n rhaid dewis pa faterion i roi sylw iddynt. Mae cymaint o gyfleoedd i newid pethau fel ei bod yn anodd penderfynnu beth i'w wneud. Yn awr, mae sawl ymgyrch gennym - gwneud tref lleol yn rhydd o fagiâu plastig, cefnogi cynnyrch lleol, ac ysgrifennu at bapurau lleol yn cefnogi mentrau gwyrdd.

Mae wedi bod yn chwe mis diddorol er i mi gysylltu'n gyntaf â Chyfeillion y Ddaear Cymru. Mae llawer wedi digwydd, o'r llon i'r lleddf. Ond fe anogwn unrhyw un sy'n ystyried cychwyn grŵp i roi cynnig arni. ”

Bleddyn Lake Swyddog Datblygu Grwpiau Lleol

“ Trwy fy ngwaith, rwy'n teithio Cymru gyfan yn cynorthwyo'r rhwydwaith o grwpiau lleol sy'n tyfu'n dragywydd. Mae'r amrywiaeth o waith a wna'r grwpiau'n rhyfeddol a chaf fy ysbrydoli'n feunyddiol. Weithiau byddaf yn gweithio gyda grwpiau ar ddenu aelodau newydd, cynnal cyfarfodydd effeithiol, ar wybodaeth am ymgyrchoedd neu cael straeon yn y wasg lleol. Rydym yn trefnu sesiynau rhyngweithio a hyfforddi i ddod â phobl ynghyd. Os ydych yn ystyried cychwyn grŵp newydd, cysylltwch â mi ac fe'ch cynorthwyaf i drefnu cyfarfod gyda phentwr o gyhoeddusrwydd. Yr oll sydd ei angen arnoch yw digonedd o frwdfrydedd a'r ysga i droi'ch byd yn lle ychydig gwyrddach. ”

Simon Williams

Rhai llwyddiannau gan grwpiau lleol

Cas-gwent

Rhoddyd cymorth i droi Cas-gwent yn dre Masnach Deg. Cychwynwyd menter 'Tref drosiannol' gyda'r amcan o leihau allyriant carbon

Llangollen

Arwain Llangollen at fod heb fagiâu plastig, gan annog 85% o siopau i gymryd rhan yn yr 'Wythnos Heb Fagiâu Plastig'

Sir Fflint

Dileuwyd cynlluniau ar gyfer traffordd saith lôn fis Mawrth '08 wedi i'r grŵp arwain protest gyhoeddus enfawr

Sir Benfro

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau gyda siaradwyr gwadd fel Syr John Houghton, y gwyddonydd hinsawdd enwog ac enillydd y wobr Nobel

Trefynwy

Cychwynwyd Marchnad Ffermyr ym mis Gorffennaf '06, ac mae'n mynd o nerth i nerth. Mae eu profiad hwy wedi ysbrydoli grwpiau eraill i gychwyn marchnadoedd yn eu hardaloedd hwythau

Caerdydd

Trefnwyd taith feic dorfol mewn ymgyrch i gael pont i feiciau tros afon Elai i gysylltu Caerdydd a Phenarth. Gyda chymorth £50 miliwn o Gronfa Loteri Fawr Sustrans mae'r prosiect yn awr ar droed

Casnewydd


Yn flaenllaw yn ymgyrch newid hinsawdd 'Her Fawr' Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru. Trefnwyd gig i hybu'r ymgyrch, ymunodd y sêr rap, Goldie Lookin Chain, i lobio ASau lleol.

Sut i gymryd rhan

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau'n cwrdd unwaith y mis ac yn gweithio ar amryw o ymgyrchoedd lleol, cenedlaethol a byd-eang - cewch hyd i'r cyswllt perthnasol ar gyfer eich grŵp lleol ar y map gyferbyn. Os hoffech gychwyn grŵp newydd, cysylltwch â Bleddyn ar 02920 229 577, neu ar bleddyn.lake@foe.co.uk

Grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yng Nghymru

- 1 Abertawe**
Roy Jones 01792 813 600
Roy@gellideg.demon.co.uk
www.wildlifewebsite.com/foe
- 2 Aberystwyth**
John Crocker 01974 272218
johnllest@hotmail.co.uk
www.aberystwyth-foe.org.uk
- 3 Caerdydd**
Heather Webber 07960 367 290
heather.webber@foe.co.uk
www.foecardiff.co.uk
- 4 Caerffili**
Bleddyn Lake 029 2022 9577
bleddyn.lake@foe.co.uk
- 5 Caerfyrddin**
Steve Hack
steve@carmarthenfoe.org
- 6 Calon Cymru**
Janine Wilbraham 01597 870039
janinewilbraham@googlemail.com
- 7 Cas-gwent**
Janet Rawlings 01291 625 977
janet@alg.myzen.co.uk
www.chepstowfoe.org.uk
- 8 Casnewydd**
David Yates
dave.yates3@btinternet.com
- 9 Castell Nedd Port Talbot**
Tina Richards 01639 771 183
tina_761@hotmail.com
- 10 Dyffryn Clwyd**
Ursel Luhde 01745 550 426
ursel@cadarn.demon.co.uk
- 11 Llangollen**
Sam Rex 01978 862 913
extinct_rex@hotmail.com
- 12 Llanidloes**
Frances Browne 01686 412 788
info@earthlightcrystals.co.uk
- 13 Môn a Gwynedd**
David Stephenson 01248 810236
c/o sandrajunehilton@hotmail.co.uk
- 14 Pontypridd a'r cylch**
Kat Nicholson, Richard Reast
01443 402 317
pontypriddfoe@googlemail.com
- 15 Sir Benfro**
Ellie Clegg 07800 789 930
silhouette@cooptel.net
- 16 Sir y Fflint**
Rob Owen 01352 710 714
glynowen@holywellcomputers.co.uk
- 17 Trefynwy**
Sue Parkinson
sueparkinson@phonecoop.coop
www.monmouthshiregreenweb.co.uk/
madfoe/
- 18 Torfaen**
Corinne Jones 01495 751 594
nodding-dog@hotmail.com
www.torfaenfoe.org.uk
- 19 Y Barri**
Keith Stockdale 01446 734368
k.stockdale@homecall.co.uk
- 20 Y Fenni a Chrucywel**
Barry Greenwood 01873 852245
bandjgreenwood@talktalk.net



Simon Williams

Gwaith, gwaith, gwaith?

Mae Heather Webber wedi bod yn gydllynydd i Gyfeillion y Ddaear Caerdydd ers mis Ionawr '08

Mae'n debyg fod bod yn gydllynydd grŵp lleol yn waith caled?

Nid felly. Mae'r gwaith yn her i mi a chydaf amrywiaeth o dasgau mae wastad yn ddiddorol. Gan amlaf, dwi'n gyswilt, yn lledaenu gwybodaeth rhwng y grŵp a'n cynorthwyo gyda chyd-lynu ein amryw weithgareddau.

Beth yw'r her fwyaf?

Peidio gwneud gormod. Mae cymaint o faterion yr hoffem weithio arnynt, ond rwyf wedi derbyn cyngor da, sef, ei bod yn well cadw at ychydig o ymgyrchoedd

a'u gwneud yn dda na mynd i'r afael â gormod a pheidio llwyddo gyda'r un ohonynt.

A'r wob fwyaf?

Pan ti'n teimlo dy fod wedi gwneud gwahaniaeth, s'dim ots pa mor fach - trwy ymgyrch lwyddiannus, llythyr yn y papur, lobiŵ AS neu sgwrsio gyda phobl ar stondin a gwybod fod dy neges wedi dal eu sylw.

A beth wyt ti'n wneud yn y cwch?

Darbwyllor Llywodraeth bod rhaid i'r mesur newid yn yr hinsawdd gynnwys llongau ac awyrennau - trwy wisgo fel morwyr a dilyn Gordon Brown mewn cwch. A dysgu gwers werthfawr sef bod cyfuno cychod, rhwyfo petrusgar a gwynt yn gwneud tynnu lluniau yn dasg drom!

Gwallgofrwydd y draffordd

Mae ffordd dollau chwe lôn wedi ei chynllunio i dorri drwy un o gynefinoedd pwysicaf Cymru. A yw hyn yn weithredu gan Lywodraeth sydd wedi ymrwymo i ddatblygiad cynaliadwy?

Mae i wlyptiroedd ryw harddwch lledrithiol cwbl arbennig, ac mae Lefelau Gwent yn un o'r goreuon. Efallai nad oes ganddynt urddas gwyllt mynyddoedd Gogledd Cymru nac ardderchogrwydd garw arfordir Sir Benfro ond yn ei ffordd ei hun y mae hwn yn ddarn yr un mor bwysig o dirwedd Cymru.

Mae'r Lefelau, sef sribed isel arfordirol i'r de o Gasnewydd, yn ddigon pwysig fel bod 5,000 hectar wedi'u dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI). Fel un o'r ardaloedd ehangaf o gorstir pori hynafol a systemau cwteri sy'n parhau i fodoli ym Mhrydain, mae'n gynefin pwysig yn genedlaethol i wahanol infertebratau. Ceir ynddi hefyd boblogaethau sylweddol o ddyfrgwn, llygod y dŵr prin, adar sy'n bridio a rhywogaethau o blanhigion nad ydynt i'w cael yn unman arall yng Nghymru.

Mae ehangder yr awyr, gornelion pell a chyfeiliant cyson cân yr adar yn gwneud Lefelau Gwent yn lle i grwydro er mwyn ymlonyddu. Profwch niwl cynnar y bore neu gwyliwch olygfa hwyrnos y gaeaf pan fydd drudwy wrth y miloedd yn ymgasglu i glwydo a byddwch yn teimlo peth o'r hud.

Mae Julian Branscombe o Ymddiriedolaeth Natur Gwent o'r farn bod Lefelau Gwent yn lle arbennig iawn. "Hon yw'r ardal gwlyptiroedd gorau yng Nghymru," meddai, "ac yn awr mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynllunio i'w dinistrio."

Nid oes unrhyw un yn gwadu bod tagfeydd traffig ar gynydd yn ne ddwyrain Cymru. Mae gan y coridor trafniadaeth hollbwysig o'r dwyrain i'r gorllewin ar hyd yr M4 fannau tagfeydd lle mae'r briffordd yn newid o chwe lôn i bedair, yn cynnwys twneli enwog Brynglas. Mae'r manau

tagfeydd hyn yn ogystal â nodweddion hen ffasiwn eraill o gynllunio yn achosi pryderon o ran diogelwch ac maent yn cyfrannu at gynyddu tagfeydd traffig, er yn gymharol ysgafn, yn ystod oriau brig. Fodd bynnag, yr heddlu'n cau'r ddwy lôn yn dilyn dau wrthdrawiad, un wedi'i achosi gan yrrwyr-hwyl a'r llall gan achos tybiedig o drawiad ar y galon, ac nid cynllun y ffordd a arweiniodd at dagfeydd difrifol yn ddiweddar.

Yn dilyn damwain ddifrifol ar yr M4 fis Medi llynedd ail-gadarnhaodd Gweinidog y Cynulliad dros Drafniadaeth, Ieuan Wyn Jones, fwriad Llywodraeth y Cynulliad i godi traffordd newydd yn dolennu i'r de o amgylch Casnewydd gan ddweud y gallai'r ffordd gael ei chychwyn yn 2010 a'i chwblhau 'gobeithio' erbyn 2013.

Byddai'r ffordd dollau newydd hon, anghenfil chwe lôn 10 milltir o hyd, yn darnio rhannau o Lefelau Gwent wrth iddi fynd rhagddi. Ond nid yw'n syniad newydd. Fe'i cynigiwyd gyntaf gan John Redwood a'r Llywodraeth Geidwadol yn y 1990au cynnar ac yna fe'i ail-gynhwyswyd yn rhaglen ffyrdd Llywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr 2004.

Disgwylir ymchwiliad cyhoeddus ddechrau'r flwyddyn nesaf a bydd yn rhaid gwneud dadl fusnes o blaid y ffordd. Amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd y prosiect yn costio tua £400 miliwn, er bod ffigwr llawer uwch eisoes yn edrych yn debygol.

Ond a fyddai'r tagfeydd a'r materion diogelwch hyn yn cael eu datrys drwy gynyddu'n sylweddol faint ffyrdd, gan adael am y tro y mater o adeiladu ffyrdd ar draws cynefin sydd o bwysigrwydd cenedlaethol? Nid dyna farn Ymgyrchydd Cludiant Cyfeillion y Ddaear, Neil Crumpton. "Byddai buddsoddi mewn trafniadaeth gyhoeddus a

“ Bydd y penderfyniad ynglŷn â'r cynllun hwn yn brawf mawr o benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â datblygiad cynaliadwy ”

diogelwch ar y ffyrdd ledled de ddwyrain Cymru yn ffordd mwy cost effeithiol o leihau tagfeydd a gwella diogelwch," meddai. "Gyda'r M4, mae angen edrych o ddifrif ar uwchraddio'r llwybr presennol i safonau dylunio modern yn ogystal â lledu'r ffordd i dair lôn ar ei hyd."

Yn hytrach nag adeiladu hyd yn oed mwy o ffyrdd a fydd yn creu traffig, mae yna atebion synhwyrol a chynaliadwy a fyddai hefyd o gymorth i leihau allyriadau carbon, mewnfurion olew a dibyniaeth ar y car - gostyngiadau a fyddai'n cael eu cyfaddawdu'n sylweddol gan draffordd newydd yn tynnu buddsoddiad oddi wrth isadeiledd a gwasanaethau cynaliadwy.

Yn ôl Neil Crumpton, gyda materion fel y rhain mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddangos ei bod o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â newid hinsawdd a chreu economi carbon isel ar gyfer Cymru. "Bydd y penderfyniad ynglŷn â'r cynllun hwn yn brawf mawr o benderfyniad Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â datblygiad cynaliadwy," meddai.

Mae cynghrair yr Ymgyrch yn Erbyn Traffordd y Lefelau (CALM) wedi bod yn ymgyrchu yn erbyn y cynnig ar gyfer y draffordd ers y dechrau. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru a grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn gweithio gyda sefydliadau eraill megis Ymddiriedolaeth Natur Gwent a'r RSPB, a chyda thrigolion lleol a grwpiau cymunedol, pob un ohonynt yn gwrthwynebu adeiladu'r draffordd. Mewn ymateb i brosiect y ffordd yn symud yn ôl i fyny'r agenda gwleidyddol, mae'r gynghrair yn ddiweddar wedi lansio gwefan newydd, www.savethelevels.org.uk, ac mae taflen ymgyrchu newydd ar gael.

Mae Julian Branscombe yn brysur iawn gyda'r ymgyrch, ac wedi gwneud llawer i ymgysylltu â phobl leol ar y mater. "Rydym wedi bod yn codi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cynigion drwy ddigwyddiadau megis teithiau cerdded o amgylch y corsydd, stondinau mewn digwyddiadau lleol a rhoi sgysiau i grwpiau lleol," meddai. "Gall unrhyw un gymryd rhan yn yr ymgyrch yn lleol, gan fod CALM yn cyfarfod bob yn ail fis yng Nghanolfan Ddinesig Casnewydd a bydd croeso bob amser i aelodau newydd.

Mae cynrychiolydd Cyfeillion y Ddaear Cas-gwent ar



Ian Homer

Aelodau CALM y tu allan i Neuadd Gymunedol Nash

Chwith i dde: Anne Were; Bledwyn Lake, Cyfeillion y Ddaear Cymru; Peter Varley; Julian Branscombe, Ymddiriedolaeth Natur Gwent; Suzannah Evans, Cyfeillion y Ddaear Casnewydd; Rebecca Price, Ymddiriedolaeth Natur Gwent; Stuart Levington, Cyfeillion y Ddaear Cymru

gynghrair CALM, Steve Rawlings, yn neilltuo gymaint â phosibl o'i amser rhydd i'r ymgyrch. Wrth egluro ei bryderon ynglŷn â'r cynnig, dywed Steve, "Mae cost adeiladu'r draffordd hon ar orlffdir, ar draws sawl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig gan ddarparu llwybr trafndiaeth sydd eisoes â thraffordd, yn gyfystyr â gwerth am arian gwirioneddol wael.

"Mewn byd o gostau ynni cynyddol a lleihad mewn cyflenwadau olew, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru angen gweledigaeth newydd. Mae angen iddi gydnabod realiti prisiau olew sy'n codi'n gyflym a rhoi o'r neilltu ei pholisïau 'busnes yn ôl yr arfer' hen ffasiwn."

Byddai gan draffordd Lefelau Gwent arwyddocâd ac effeithiau cenedlaethol, gan y byddai'n dargyfeirio arian oddi wrth drafndiaeth gyhoeddus, cynyddu allyriadau carbon Cymru a bygwth ein bioamrywiaeth. Rhaid i ni wneud yn siŵr bod y Gweinidog dros Drafndiaeth, Ieuan Wyn Jones, yn rhoi'r gorau i'r cynllun.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â sut i fod yn rhan o'r ymgyrch, cysylltwch â Haf Elgar, ymgyrchydd Cyfeillion y Ddaear Cymru, ar 02920 229 577, neu haf.elgar@foe.co.uk, neu ewch i www.foecymru.co.uk. I gael rhagor o wybodaeth am yr Ymgyrch yn Erbyn Traffordd y Lefelau, ewch i www.savethelevels.org.uk

Pŵer gwynt: Y mythau

Mae pŵer gwynt yn cynnig ffynhonnell lân, ddiogel ac effeithlon o ynni. Eto, mae gwrthwynebwyr ein technoleg adnewyddadwy mwyaf datblygedig yn benderfynol o gamarwain.

MYTH: Mae ffermydd gwynt yn amhoblogaidd

FFAITH: Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wedi asesu dros 50 o arolygon barn gyhoeddus a gynhaliwyd ers 1991 ac wedi canfod bod 80% o bobl o blaid ffermydd gwynt

MYTH: Mae pŵer gwynt yn ddrud

FFAITH Dywedodd Adolygiad Ynni Swyddfa'r Cabinet fod "gwynt ar y tir yn debygol o fod y rhataf o'r holl dechnolegau cynhyrchu o fewn 20 mlynedd"

MYTH: Mae ynni gwynt yn aneffeithlon

FFAITH: Bydd tyrbin gwynt nodweddiadol yn y DU yn cynhyrchu trydan am 80 i 85% o'r amser

MYTH: Ychydig o bŵer mae gwynt yn cynhyrchu

FFAITH: Gallai'r polisiau a'r cynigion presennol ar gyfer ffermydd gwynt gynhyrchu gymaint â 25% o'r galw am drydan yng Nghymru erbyn 2012

MYTH: Mae tyrbinau gwynt yn swnllyd

FFAITH: Mae cynllun tyrbinau wedi gwella'n sylweddol wrth i'r dechnoleg ddatblygu. Mae'n hollol bosibl sefyll yn union o dan dyrbin a chael sgwrs naturiol heb orfod codi llais

MYTH: Mae tyrbinau gwynt yn lladd adar

FFAITH: Dywed yr RSPB, "Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad yw ffermydd gwynt sydd wedi eu lleoli'n gywir yn peri peryglon sylweddol i adar"

Ewch i www.cyddcymru.co.uk i lawrlwytho fersiwn llawn
Ynni gwynt: 20 Myth Yn Mynd Gyda'r Gwynt